Cofrestriadau, cofrestriadau hwyr a dyfarniadau

Canllaw i'r broses cyflwyno data

Medi 2019

Cynnwys

Cofrestriadau 3
Canllawiau cwblhau cyffredinol 4
Fformat ffeil 4
Cysylltiadau 7

Cofrestriadau

Cyflwyniad

Er mwyn bodloni ein swyddogaethau rheoleiddio ac achredu fel y'u nodwyd yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015[1], rydym yn mynnu bod cyrff dyfarnu'n darparu data arholiadau ar gyfer cymwysterau a reoleiddir.

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ddogfen *Guidance for entries, late entries and awards*[2] Ofqual.

Pryd fydd data'n cael ei gasglu?

Casglir data yn unol â'r rhaglen adrodd a gytunir ac a gynhelir gan dîm ystadegau Cymwysterau Cymru, sydd i'w chael ar ein gwefan.

Pa ddata fydd yn cael ei gasglu?

Bydd data cofrestriadau'n cael ei gasglu ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch, Prif Ddysgu Lefelau 1 a 2, Prif Ddysgu Lefel 3, Prosiect Lefelau 1 a 2, Prosiect Lefel 3, Tystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Dylai pynciau cymhwysol gael eu cynnwys mewn ffigurau Safon UG a Safon Uwch.

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/654321/6298_Guidance_for_T1_Entries.pdf

Canllawiau cwblhau cyffredinol

- Mae'r adroddiad data hwn ar gyfer data sy'n berthnasol i ddysgwyr yng Nghymru yn unig.
- Ni cheir fformatio gwerthoedd rhifol o gwbl.
- Ni chaiff comas fod yn bresennol mewn unrhyw faes, heblaw bod y testun wedi'i amgáu gan ddyfynodau.
- Dylid adrodd am gofrestriadau llinol ar lefel gydran, e.e. os oedd 5 ymgeisydd yn gwneud TGAU Mathemateg a bod gan hyn dair cydran, dylai cyrff dyfarnu nodi 15.
- Ni ddylid cynnwys ffigurau tynnu'n ôl a dileadau yn y data. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn cofrestru ar gyfer un pwnc/manyleb, ond yna'n tynnu'n ôl ac yn cael ei ailgofrestru am bwnc gwahanol, dylid adrodd am hyn fel un ardystiad, ac nid dau.
- Dylai pynciau â dyfarniad dwyradd gael eu cyfrif fel un ardystiad yn unig, nid dau.
- Diffinnir cofrestriadau hwyr fel cofrestriad a gafwyd ar ôl hanner nos ar y dyddiad cau ar gyfer pob cyfres arholiadau. Er enghraifft, dyddiad cau haf 2018 oedd 21 Chwefror 2018, felly byddai unrhyw gofrestriad a gafwyd ar neu ar ôl 12.01am ar 22 Chwefror yn cael ei ddosbarthu'n un hwyr.
- Ni adroddir ar wahân am gofrestriadau hwyr iawn ond dylid eu cynnwys mewn ffigurau cofrestru hwyr.
- Ni adroddir ar wahân am ddyfarniadau hwyr iawn ond dylid eu cynnwys mewn ffigurau dyfarniad hwyr.
- Ni adroddir ar wahân am ffigurau Safon UG a Safon Uwch cymhwysol ond dylid eu cynnwys mewn ffigurau Safon UG a Safon Uwch.
- Dylai data Tystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 fod ar gyfer y rheini a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru yn unig. Mae hyn yn cynnwys Tystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 cymeradwy, dynodedig ac eraill a reoleiddir.

Fformat ffeil

Rhaid i'r ffeil fod mewn fformat CSV a rhaid i'r rhes gyntaf fod yn benynnau fel yr arddangosir yng ngholofn '**Enw**' y tabl isod. Rhaid i'r rhesi dilynol gael gwerthoedd y data i'w adrodd y mae'n rhaid iddynt gyfateb i'r fformat a'r rheolau dilysu isod.

Enw	Disgrifiad	Safle	Mynegiad Rheolaidd Dilysu	Disgrifiad o Fynegiad Rheolaidd
Exam series	Y gyfres arholiadau y mae'r data'n berthnasol iddi e.e. June 2018	1	^(January|March|June| November)([ ][0-9][0-9][0-9][0-9])$	Enw mis llawn y gyfres arholiadau a blwyddyn
Awarding organisation	Enw'r sefydliad dyfarnu	2	^.{1,100}$	Derbynnir 1 i 100 o nodau
Reporting date	Y dyddiad yr oedd y ffeil i fod i gael ei chyflwyno ni waeth pryd y cafodd ei lanlwytho mewn gwirionedd. Y fformat a dderbynnir yw naill ai 103 Prydeinig/Ffrengig **dd/mm/bbbb**, neu ffurf ganonaidd 120ODBC **bbbb-mm-dd**	3	^(20)\d\d[-](0[1-9]|1[012])[-](0[1-0]|[12][0-9]|3[01])$	Y dyddiad yn y fformat canlynol: dyddiad (dau ddigid), blaenslaes, mis (dau ddigid), blaenslaes, blwyddyn (pedwar digid), neu: blwyddyn (pedwar digid), llinell doriad, mis (dau ddigid), llinell doriad, dyddiad (dau ddigid)
Qualification	Lefel a math o gymhwyster e.e. GCSE, PrincipalLearning level1 & 2	4	^(GCSE|AS|A level|PLLevels 1 & 2|PL Levels 1 and 2|PL Level 3|ProjectLevels 1 & 2|ProjectLevels 1 and 2|ProjectLevel 3| and Level 1/Level2 Certificates| National/Foundation Skills Challenge Certificate| Advanced Skills Challenge Certificate| Foundation (post 16) Skills Challenge Certificate| National (post 16) Skills Challenge Certificate)$	Un o'r rhestr ganlynol: GCSE, AS, Alevel, PL Levels 1 &2, PL Level 3, ProjectLevels 1 & 2, ProjectLevel 3, Level 1/Level2Certificates, National/Foundation Skills Challenge Certificate, Advanced Skills Challenge Certificate, Foundation (post 16) Skills Challenge Certificate, National (post 16) Skills Challenge Certificate
Country	I nodi bod y data'n berthnasol i Gymru yn unig	5	^(Wales)$	Derbynnir Wales
Ontime unit entries	Nifer y cofrestriadau a wnaed mewn pryd ar lefel uned	6	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999

Late unit entries	Cofrestriad am uned a wnaed ar ôl hanner nos ar y dyddiad cau ar gyfer pob cyfres arholiadau. Dylai cofrestriadau hwyr gynnwys cofrestriadau hwyr iawn a wnaed ar neu ar ôl dyddiad arholiad cyntaf y gyfres	7	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999
Ontime linear entries	Nifer y cofrestriadau llinol a wnaed mewn pryd ar lefel gydran	8	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999
Late linear entries	Cofrestriad am bwnc llinol a wnaed ar ôl hanner nos ar y dyddiad cau ar gyfer pob cyfres arholiadau. Dylai cofrestriadau hwyr gynnwys cofrestriadau hwyr iawn a wnaed ar neu ar ôl dyddiad arholiad cyntaf y gyfres.	9	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999
Ontime unitised awards	Nifer y dyfarniadau unedol a wnaed mewn pryd	10	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999
Late unitised awards	Dyfarniadau unedol hwyr	11	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999
Ontime linear awards	Nifer y dyfarniadau llinol a wnaed mewn pryd	12	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999
Late linear awards	Nifer y dyfarniadau llinol hwyr	13	^\d{1,8}$	Derbynnir gwerth rhifol rhwng 0 a 99,999,999

Cysylltiadau

Am bob ymholiad mewn perthynas â'r broses casglu data, newidiadau i ddata a ddarparwyd yn flaenorol, neu am arweiniad cyffredinol, cysylltwch â:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd NP10 8AR

Rhif ffôn 01633 373 222

E-bost: DataProject@Qualificationswales.org